# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (213)

# Dydd Mercher, 28 Mehefin 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)

Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 5 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol

Eitem 6 - Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar Bapurau Newydd yng Nghymru

Eitem 7 - Dadl fer -NDM3139 Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth): Dyfodol Amgylcheddol Cymru

.............................

**Eitem 1 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

............................

**Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)**

**NDM3140 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NDM3141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

*Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**Dogfennau Ategol**

**Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2006**

............................

**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006**

**NDM3142 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru) - TYNNWYD YN OL**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w chynlluniau i drosglwyddo'r staff sy’n gweinyddu Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i gyflogaeth uniongyrchol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.’

**NDM3143 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Adroddiad y Pwyllgor Deddfau**

**Rheoliadau Tir Gofal (Cymru) (Diwygio) 2006**
**Yr Arfarniad Rheoliadol**
**Adroddiad y Pwyllgor Pwnc**

..........................

**Eitem 5 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol**

**NDM3144 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol â Rhan II Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 6.6 y Cynulliad Cenedlaethol, yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar gyfer 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
**Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:**

**(1)**

**(2+3+4)**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei danseilio gan fethiant Llywodraeth y Cynulliad i:

a) ymgynghori ag awdurdodau lleol parthed dosbarthu cyllid RHAGORI; a
b) darparu lefel ddigonol o gefnogaeth i awdurdodau lleol sydd, drwy gerio, wedi gosod pwysau mawr ar lywodraeth leol i godi'r dreth gyngor yn gyson i lefelau anghynaliadwy.

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod codiadau anghynaliadwy yn y dreth gyngor wedi bod yn anochel oherwydd y

gymhareb gerio sydd ymhlyg yn y dreth gyngor, cyfrifoldebau awdurdodau lleol a maint y grant cynnal refeniw, ac yn credu ymhellach fod hyn wedi gwanhau’r broses o weithio mewn partneriaeth rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

### Gwelliant 3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau ei bod yn ariannu unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol y mae'n eu dirprwyo i awdurdodau lleol yn y dyfodol yn llawn.

### Gwelliant 4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y problemau cydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol yng nghyswllt y Gronfa Adfywio Leol ac yn galw ar y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i adolygu'r ffordd y mae’n cyfathrebu ag awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn.

**Dogfennau Ategol**
**Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol**

............................

## Eitem 6 - Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar Bapurau Newydd yng Nghymru

### NDM3145 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r Adroddiad a luniwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon dan y teitl "Adolygiad o Bapurau Newydd Saesneg yng Nghymru" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 20 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

...........................

**Eitem 7 - Dadl fer - NDM3139 Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth): Dyfodol Amgylcheddol Cymru**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**